**Rhif: 4**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C16/1090/33/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **02/09/2016** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Buan** |
| **Ward:** | **Efailnewydd/Buan** |
| **Bwriad:** | **Cynyddu nifer o unedau teithiol o'r 11 ganiatawyd i 19 (8 ychwanegol) a chodi adeilad golchi** |
| **Lleoliad:** | **Plas Yng Ngheidio, Boduan, Pwllheli, Gwynedd, LL538YL** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais yw hwn ar gyfer cynyddu niferoedd carafanau teithiol ar faes carafanau presennol. Byddai'r bwriad arfaethedig yn golygu cynyddu nifer yr unedau teithiol o 11 i 19 sef 8 yn ychwanegol. Mae'r cais hefyd yn cynnwys adeiladu adeilad golchi, ardal chwarae newydd, ffensio rhan o'r cae er mwyn ei gau ffwrdd i hybu bywyd gwyllt a phlannu rhai coed o fewn y safle gerllaw'r ardal chwarae newydd.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ac o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd. Mae hefyd wedi ei leoli oddi fewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Yn cyd redeg a therfyn gogledd dwyreiniol y cae mae trac fferm sydd hefyd yn llwybr cyhoeddus. Gwasanaethir y safle gan ffordd ddosbarth 3 sy'n rhedeg cyfochrog a'r fferm. I'r gogledd ddwyrain o'r cae mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Gors Geirch sydd hefyd yn safle Ramsar ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Corsydd Llyn.

1.3 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan ei fod yn ymwneud â datblygiad o fwy na 5 carafán a bod yr ymgeisydd yn Aelod.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A2 - GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU - Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa, neu leoliad cynigion.

POLISI B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD -
Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru os byddant yn achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL - Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o’r fath.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a’r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU - Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy’n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy’n briodol ar gyfer y safle ac sy’n ystyried cyfres o ffactorau sy’n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a’r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI D20 - SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA AC UNEDAU TEITHIOL - ESTYNIADAU, LLEINIAU YCHWANEGOL, ADLEOLI A CHYFNEWID - Caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau neu estyniadau i’r safleoedd, neu adleoli lleiniau neu gyfnewid llecynnau cyhyd a chwrdd gyda meini prawf penodol yn ymwneud gyda gwelliannau amgylcheddol a gweledol, gosodiad, dyluniad a gwedd y safle a’i le yn y dirwedd o’i amgylch, gallu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiadau o’r fath effaith gronnol safleoedd carafanau, gwersylla ac unedau teithio presennol.

Canllaw Cynllunio Atodol : Llety Gwyliau (Gorffennaf 2011)

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, sydd wrthi’n cael ei baratoi, yn destun Archwiliad Cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw’n ystyriaeth cynllunio perthnasol ar hyn o bryd ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Nodyn Cyngor Technegol 13 – Twristiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C14/1218/33/LL – Newid defnydd cae i greu safle carafanau teithiol ar gyfer 11 carafán a 2 'pod' campio ynghyd ac adeiladu bloc toiledau / cawod a gosod tanc septig newydd – Caniatáu 27 Mawrth 2015.

3.2 C12/0718/33/LL Gwelliannau i'r fynedfa gerbydol a gwaith peirianyddol: Caniatáu 16 Gorffennaf 2012

3.3 C12/0195/33/LL Safle ar gyfer 12 carafán deithiol a chyfleusterau ymolchi: Gwrthod 19 Ebrill 2012

3.4 C08D/0048/33/AM Tŷ unllawr: Gwrthod 14 Ebrill 2008

3.5 C07D/0267/33/AM Adeiladu dau dy: Gwrthod 19 Medi 2007

3.6 C02D/0035/33/LL Sied amaethyddol Caniatáu 12 Ebrill 2002

**4. Ymgynghoriadau:**

Cyngor Cymuned/Tref: Heb eu derbyn.

Uned Drafnidiaeth: Dim gwrthwynebiad i'r bwriad. Er bod y cynnydd yn y niferoedd yn un sylweddol tybir fod y nifer fel cyfanswm yn annhebyg o gael effaith niweidiol a bod y rhwydwaith ffyrdd yn y cyffiniau'n ddigon addas i ymdopi a'r niferoedd yr ymgeisir amdano.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Sylwadau 15 Tachwedd 2016
Diolch am gyfeirio manylion y tanc trin yn gysylltiedig gyda'r cais. Gallwn gadarnhau ein bod yn fodlon gyda'r manylion a gyflwynwyd o safbwynt y tanc trin.

Sylwadau 19 Medi 2016
Yn y cais cynllunio blaenorol bu i ni argymell yr angen am wely hesg. Daeth yr ymgeisydd i gysylltiad gyda ni i drafod y risg o ddŵr daear i'r SoDdGA. Bu i'r ymgeisydd ddatgan y byddai tanc septig gyda gwell ffos gerrig yn cael ei osod. Mae'r gwell ffos gerrig yma yn golygu y byddai elifiant yn cael ei arafu fel ei bod yn cael ei gadw mewn haen o dywod wedi ei olchi a haen pilen. Mae hyn yn caniatáu ymddatodiad bacterial o'r elifiant yn y ddaear ac i osgoi arllwysiad cyflym i'r dŵr daear. Bydd angen sicrhau fod y capasiti yn addas ar gyfer y llwyth ychwanegol heb achosi llygredd.

Dŵr Cymru: Carthffosiaeth
Dim sylwadau ar yr agwedd yma gan na fwriedir cysylltu i'r garthffos gyhoeddus.

Cyflenwad Dŵr
Dim gwrthwynebiad i'r bwriad

Uned Bioamrywiaeth: Sylwadau 21 Tachwedd 2016
Rwyf yn fodlon gyda'r wybodaeth ychwanegol sydd wedi ei gyflwyno a does gen i ddim sylwadau pellach i'w gwneud.

| | |
| --- | --- |
| | Sylwadau 26 Medi 2016<br>Dim pryderon am y cais wedi ei gyflwyno ond rwy'n sylwi fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio yn eu sylwadau at ddull gwahanol o drin carthion i'r hyn a ganiatawyd yn y cais blaenorol sef Gwely Hesg (C14/1218/33/LL). Dylid cynnwys manylion y dull newydd yma yn y cais presennol gan ddangos sut y bydd yn ymdrin â'r cynnydd yn y nifer carafanau a'r adeilad golchi newydd. |
| Uned Llwybrau: | Heb eu derbyn. |
| Swyddog Carafanau: | Nid oes gwrthwynebiad i'r cais cyn belled ag y bydd cydymffurfiad gydag amodau trwydded. Rhaid i'r datblygiad hwn gydymffurfio gyda gofynion y Deddfau ar Safonau Model a nodir fel a ganlyn:-<br>• Deddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960.<br>• Safonau Model 1983.<br>• Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ayyb 1974.<br>Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd wneud cais i ddiwygio trwydded safle petai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu. |
| Gwasanaeth Tân: | Dim sylwadau o safbwynt mynediad ar gyfer offer tân a chyflenwad dŵr. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd 1 llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:<br>• Materion yn ymwneud gyda'r cyflenwad dŵr gan fod eiddo'r cais a'u heiddo hwy yn rhannu un bibell ddŵr ac nad yw'r materion hynny wedi eu datrys ers y cais blaenorol. |

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi D20 o GDUG yn caniatáu cynigion i gynyddu nifer y lleiniau ar safleoedd carafanau teithiol presennol fel estyniad, cyhyd a bod y cynnig yn ffurfio rhan o gynllun a fydd yn arwain at welliannau amgylcheddol a gweledol o ran lleoliad, gosodiad, dyluniad a gwedd y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch. Yn ogystal, mae gofyn na fydd y datblygiad arfaethedig tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i gynnwys datblygiad o'r fath, wrth ystyried unrhyw effaith gronnol safleoedd carafanau teithiol presennol.

5.2 Mae'r bwriad gerbron ar gyfer ymestyn ac ychwanegu 8 llain newydd ar safle carafanau presennol, sydd â chaniatâd cynllunio i osod 11 carafán deithiol a 2 pod. Bwriedir lleoli'r unedau newydd ar ffin orllewinol y safle. Mae'r cynlluniau wedi eu newid o'r hyn gyflwynwyd yn wreiddiol, gyda mwy o welliannau wedi eu cynnig. Mae bwriad i dirlunio cornel ogledd gorllewinol y safle drwy blannu rhai coed, bwriedir hefyd greu ardal chwarae newydd ac adeiladu adeilad golchi newydd. Bwriedir hefyd ffensio rhan o'r cae tua'r gorllewin o'r safle ar gyfer hybu bywyd gwyllt. Mae'r safle hwn yn gymharol guddiedig ac anymwthiol yn y tirlun, gan fod clawdd pridd gyda thyfiant ar ei ben wedi ei leoli tua ffin ddwyreiniol y safle ac mae'r tir tua'r gorllewin yn uwch. Bu i waith plannu gwrychoedd gymryd lle yn

ddiweddar ar y clawdd tua'r dwyrain o'r safle ac mae'r tyfiant yma bellach wedi aeddfedu er bod rhan fechan tua'r gornel gogledd dwyreiniol i weld yn wannach na'r gweddill ar hyn o bryd.

5.3 Fel rhan o'r gwelliannau gofynnir am adeiladu adeilad golchi newydd gerllaw'r adeilad cawod / toiledau sydd wedi ei godi ar y safle. O ran ei leoliad, dyluniad a maint ystyrir fod yr adeilad yn rhesymol, ac i'w leoli gerllaw adeilad presennol o fewn y safle carafanau a hefyd heb fod ymhell o'r tŷ fferm. Nodir y byddai gorffeniad waliau allanol o chwipiad a byddai'r to o ddalennau rhychiog..

5.4 Mae'r safle presennol yn gweithredu rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn a byddai'r un cyfnod yn berthnasol i'r unedau newydd.

5.5 O asesu'r bwriad yn erbyn gofynion polisi D20, credir bod y bwriad o ran lleoliad, gosodiad, dyluniad a gwedd yn debygol o integreiddio a chymhathu i'r safle a'i dirwedd. Nid yw'r safle'n amlwg nac ymwthiol yn y tirlun a ni ystyrir y byddai ardrawiad niweidiol o ran mwynderau gweledol y cyffiniau nac ar yr Ardal Gwarchod y Dirwedd. Byddai'r tirlunio a newidiadau arfaethedig yn welliannau amgylcheddol fyddai'n gwella gwedd a chyfleusterau'r safle yn ei gyfanrwydd. Mae'r Uned Priffyrdd yn credu bod y cynnydd o 8 uned o fewn gallu rhesymol y cyffiniau a'r rhwydwaith ffordd sirol i ymdopi a'r cynnydd. Gyferbyn a safle'r cais ceir maes carafanau eithriedig Graeanfryn, ceir hefyd safle carfannau Carreg Lwyd i gyfeiriad Ceidio. Mae caniatâd hefyd ar gyfer safle carafanau yn Tu Hwnt i'r Ffrwd sydd hefyd yn gymharol agos i safle'r cais. Serch hynny, ni ystyrir y byddai'r ychwanegiad hwn yn mynd tu hwnt i allu rhesymol y cyffiniau i ymdopi a datblygiad o'r fath ar hyn o bryd, wrth eu hystyried yn nhermau effaith gronnol a'r cyd-destun effaith amgylcheddol, mwynderol, a ffyrdd fyddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais. Mae'r ffordd i fyny at Plas yng Ngheidio yn ddigon llydan ac addas i ddelio a'r llif trafnidiaeth. Ystyrir felly fod y cynnydd mewn niferoedd a'r gwelliannau a fwriedir yn cydymffurfio a gofynion polisïau B10, B22, B25, B27 a D20 CDUG.

**Mwynderau gweledol**

5.6 Un o brif amcanion polisi B10 yw diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd a sicrhau bod datblygiadau yn cael eu hintegreiddio yn dderbyniol gyda'r dirwedd. Fel nodwyd eisoes, ni ystyrir fod y safle yn ei ffurf bresennol yn rhy ymwthiol yn y tirlun o'r mannau mwyaf cyhoeddus megis o'r ffyrdd cyfagos, a hynny oherwydd y cloddiau, y tir uwch yn y cefndir a chysgod yr adeiladau fferm. Mae'r cloddiau ym mhen pellaf y cae ychydig is a fwy agored i gyfeiriad y gogledd orllewin serch hynny, mae plannu helaeth wedi cymryd lle ac maent yn ymddangos i fod wedi cydio yn y rhan yma a bydd hyn yn debygol o leddfu'r effaith ar ôl aeddfedu. Byddai gofyn bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau y bydd y tirlunio hwn yn cael ei gynnal a'i gadw i'r dyfodol.

5.7 Nid oes pryder sylweddol am effaith gweledol yr unedau teithiol. Ystyrir hefyd fod yr adeilad golchi arfaethedig yn dderbyniol o ran dyluniad, maint a graddfa ac wedi ei leoli yn y gornel agosaf i'r bloc cawod / toiledau ac i'r tŷ, felly yn cadw perthynas dda gyda'r adeiladau presennol. Ni ystyrir gyda'r gwaith lefelu sydd wedi cymryd lle, a'r cloddiau uchel a'r plannu y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd nac yn cael effaith andwyol ar yr Ardal Gwarchod y Dirwedd. O ganlyniad ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio gyda Pholisiau B10, B22, B25 a B27 CDUG.

5.8 Gorwedd y safle o fewn y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae Polisi B12 CDUG yn gofyn fod angen asesu effaith cynigion ar y dirwedd hanesyddol pan mae ar y fath raddfa ac mor fawr fel y bydd yn cael effaith fwy nag effaith leol. Gan mai bwriad ar gyfer cynyddu niferoedd ar safle carafanau yw'r bwriad ni ystyrir y byddai hynny ar y fath raddfa fel y byddai'n cael effaith ar y dirwedd hanesyddol. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt Polisi B12 CDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Ar wahân i dŷ fferm Plas yng Ngheidio ceir dau dŷ annedd yng nghyffiniau'r cais, sef byngalo Tŷ Ni sydd o fewn perchnogaeth y fferm yn ogystal ag eiddo Graeanfryn gyferbyn. Ni ystyrir y byddai safle o 19 carafán deithiol a dau 'pod' yn golygu gor-ddatblygu'r safle nac yn arwain at ychwanegiad mewn traffig fel y buasai'n cael niwed arwyddocaol ar fwynderau lleol. Mae safle Graeanfryn ei hun yn gweithredu fel safle carafanau eithriedig clwb Carafán a Champio, felly byddai'r defnydd dan sylw yn annhebygol o effeithio'n fwy ar yr eiddo na'r hyn a phrofi'r yn bresennol. Ni ystyrir felly y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r gymdogaeth leol ac ystyrir y bwriad yn dderbyniol o agwedd Polisi B23 CDUG.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.10 Mae mynedfa gerbydol lydan newydd i'r ffordd sirol dosbarth 3 eisoes wedi ei ganiatáu a'i chreu. Mae'r fynedfa newydd yn sicrhau gwell gwelededd i'r ddau gyfeiriad na'r fynedfa fferm wreiddiol. Datgan yr Uned Drafnidiaeth eu bod yn fodlon gyda'r bwriad ac y byddai'r bwriad yn annhebygol o gael effaith niweidiol a bod y rhwydwaith ffyrdd yn y cyffiniau'n addas i ymdopi gyda'r nifer ychwanegol yr ymgeisir amdanynt. Mae'r ffordd sirol dosbarth 3 sy'n arwain o gylchfan Bryn Cynnan i'r safle yn gymharol agored a'r mwyafrif ohono'n ddigon llydan i ddau gerbyd felly yn dderbyniol i ymdopi a'r cynnydd mewn trafnidiaeth. Ystyrir felly fod y bwriad yn bodloni gofynion Polisi CH33 CDUG heb fod yn niweidiol i ddiogelwch ffyrdd.

**Materion Ieithyddol**

5.11 Mae Polisi A2 CDUG yn nodi y dylid gwrthod cynigion a fyddai oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau. Derbyniwyd Datganiad Ieithyddol a Chymunedol fel rhan o'r cais blaenorol pan ganiatawyd y safle carafanau ar gyfer 11 carafán deithiol a 2 pod. Ni ystyriwyd y byddai'r bwriad hynny yn achosi niwed arwyddocaol i'r iaith Gymraeg. Mae'r cais presennol ar gyfer 8 uned deithiol ychwanegol ac felly nid oedd gofyn fod Datganiad Ieithyddol a Chymunedol yn cael ei gyflwyno am y nifer yma o unedau. Oherwydd natur dymhorol a teithiol yr unedau mewn cwestiwn ni ystyrir y byddai'r bwriad o gael 8 uned deithiol ychwanegol yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned a'i fod felly yn dderbyniol o ran Polisi A2 CDUG.

**Materion bioamrywiaeth**

5.12 Saif Cors Geirch oddeutu 160 medr i'r gogledd o'r safle sy'n cyd-redeg gydag Afon Geirch. Mae'r gors wedi ei hadnabod fel safle Ramsar ac Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) sydd o bwysigrwydd cadwraeth ryngwladol. Mae'r gors hefyd wedi ei ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o bwysigrwydd cenedlaethol. Ar y cais gwreiddiol derbyniwyd sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan pryder am y system trin gwastraff arfaethedig a'i effaith posib ar y safle gwarchodedig. Yn sgil hyn gosodwyd amod ar ganiatâd cynllunio C14/1218/33/LL yn gofyn am ddarparu gwely hesg. Fodd bynnag yn dilyn rhoddi'r caniatâd cynllunio yma mae'n ymddangos i'r ymgeisydd gynnal trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru pryd y daethpwyd i ddealltwriaeth y byddai gosod tanciau

trin gyda ffos gerrig o ansawdd gwell na'r arferol yn dderbyniol. Cyflwynwyd manylion y tanciau trin yma fel rhan o'r cais ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Uned Bioamrywiaeth yn fodlon gyda'r manylion a bod y capasiti yn ddigonol ar gyfer y bwriad. Mae'r tanciau trin yma eisoes wedi eu gosod mewn ymgynghoriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Ystyrir fod y bwriad felly yn dderbyniol o safbwynt Polisi B15 a B16 CDUG.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.13 Derbyniwyd llythyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn datgan pryder am effaith y bwriad ar bwysedd a chyflenwad dŵr i eiddo Graeanfryn. Nodwyd sylwadau cyffelyb ar gais C14/1218/33/LL gan fod problemau gyda phwysedd dŵr gyda'r cyflenwad yn gwasanaethu eiddo Plas yng Ngheidio yn gyntaf, cyn eiddo Graeanfryn ac y byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at fwy o broblemau. Roedd amod ar ganiatâd C14/1218/33/LL yn gofyn fod manylion parthed y dull o sicrhau bod cyflenwad dŵr digonol ar gael i wasanaethu'r datblygiad. Rhoddwyd yr amod yma yn sgil sylwadau Dŵr Cymru ar y cais. Derbyniwyd ymateb Dŵr Cymru i'r cais presennol yn datgan nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r bwriad o safbwynt y cyflenwad dŵr. Nid oes unrhyw gyfeiriad y tro yma yn eu sylwadau at y ffaith fod y brif bibell yn annigonol i sicrhau cyflenwad nag o ran awgrymu i'r ymgeisydd osod tanc a phwmp i ddygymod efo'r galw ychwanegol neu osod gwasanaeth newydd i bibell arall. Deallir ers i'r cais blaenorol gael ei ganiatáu fod trafodaethau wedi bod yn cymryd lle rhwng yr ymgeisydd a Dŵr Cymru o safbwynt ceisio dod i ddealltwriaeth o safbwynt y cyflenwad dŵr a'u bod wedi bod yn edrych am gael cyflenwad dŵr o bibell neillog. Y bwriad yw i gysylltu i'r prif gyflenwad dŵr yn Cefn Morfa a bod Dŵr Cymru wedi bod allan ar y safle yn gweld ac asesu'r llinell ar gyfer gosod y pibelli. Ymddengys felly fod cynlluniau ar y gweill i ddatrys y broblem cyflenwad dŵr ar gyfer y safle a gellir rhoddi amod i sicrhau fod y gwaith o gysylltu i'r prif bibell ddŵr yn cael ei wneud cyn bod y bwriad sy'n destun y cais presennol yn cychwyn. Ystyrir yn sgil hyn a sylwadau Dwr Cymru ar y cais presennol fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt cael cyflenwad dŵr digonol ar gyfer y safle.

## 6. Casgliadau:

6.1 Mae gwaith lefelu tir a thirlunio sylweddol wedi ei wneud i wella gwedd y safle yn y dirwedd. Yn sgil y gwaith, ynghyd a'r nodweddion tirlunio presennol ystyrir nad yw'r safle bellach yn ymwthiol yn y dirwedd ac ni ystyrir ei fod yn debygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol Ardal Gwarchod y Dirwedd yn y tymor hir. O safbwynt sicrhau fod y safle yn cael ei reoli yn gywir ystyrir y gellir sicrhau hyn drwy amodau perthnasol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol â chynlluniau.
3. Nifer o unedau ar y safle ar unrhyw un adeg i'w cyfyngu i 19 carafán deithiol a 2 'pod'.
4. Cyfyngu i dymor gwyliau
5. Unedau gwyliau yn unig a chadw cofrestr
6. Dim storio carafanau ar y tir.
7. Tirlunio

8. Cynnal a chadw’r tirlunio tra bydd y defnydd carafanau yn bodoli
9. Waliau allanol yr adeilad golchi i gydweddu.
10. To'r adeilad golchi i gydweddu.
11. Angen cysylltu i’r brif bibell ddŵr cyn i’r datblygiad a ganiateir drwy hyn gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.